

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO	PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE
DYDD IAU 12 MEDI 2024 am 2.00 o'r gloch y.p.	THURSDAY 12 SEPTEMBER 2024 at 2:00 p.m.
CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNOGR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY THOROUGH ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518 Committee Officer

ELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Y Grwp Annibynnol / The Independent Group

Gwilym O Jones (**Is-gadeirydd/Vice-Chair**)

Plaid Cymru / The Party of Wales

Non Dafydd, Euryrn Morris, John I Jones, Dylan Rees (**Cadeirydd/Chair**), Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

Llafur Cymru/Welsh Labour

Pip O'Neill

Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)

Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)

Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)

Mr. Dafydd Gruffydd (Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 COFNODION (Tudalennau 1 - 46)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2024.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2024.

4 PARTNERIAETHAU STRATEGOL - MEDRWN MÔN (Tudalennau 47 - 66)

Derbyn cyflwyniad gan Medrwn Môn.

5 MÔN CF (CYMUNEDAU YMLAEN) (Tudalennau 67 - 86)

Derbyn cyflwyniad gan Môn CF (Cymunedau Ymlaen).

6 CYNGOR AR BOPETH YNYS MÔN (Tudalennau 87 - 94)

Derbyn cyflwyniad gan Gyngor ar Bopeth Ynys Môn.

7 BLAEN RAGLEN WAITH 2024/2025 (Tudalennau 95 - 102)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024

YN BRESENNOL: Cyngorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Cyngorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Cyngorydd Non Dafydd, Euryr Morris, Pip O'Neill, Derek Owen,
Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams

Mr John Tierney – Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru

Aelod Portffolio

Cyngorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r
Gymraeg

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Democratiaeth,
Rheolwr Sgriwtini (AGD),
Swyddog Sgriwtini (EA),
Swyddog Pwyllgor (MEH)

YMDDIHEURIADAU: Cyngorwyr Jeff M Evans a John Ifan Jones

Mrs Gillian Thompson – Rhiant Lywodraethwr – Ysgolion Cynradd;
Mrs Wenda Owen – Yr Eglwys yng Nghrymu

Aelodau Portffolio

Cyngorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth
a Morwrol;
Cyngorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Diogelu'r
Cyhoedd a Newid Hinsawdd.

Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro;
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg (FO)

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Cyngorydd Llinos Medi – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio
Datblygu Economaidd;
Cyngorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod
Portffolio Cyllid;
Cyngorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Corfforaethol a
Phrofiad Cwsmer;

Cyngorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Gwasanaethau
Oedolion

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodir uchod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w hystyried.

3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2024
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2024 (Ethol Cadeirydd/Is-gadeirydd)

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG - 2023/2024

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg i'w ystyried gan y Pwyllgor, ac i wneud unrhyw sylw arno cyn ei gyflwyno i'w gymerdawyo gan yr Aelod Portffolio i'w gyhoeddi.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, yn unol â Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg 2015, bod rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â chydymffurfiaeth gyda'r safonau. Dywedodd bod cynnydd wedi bod yn nifer y staff sy'n derbyn Hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn ac mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cefnogi'r Cyngor gyda hyn. Dywedodd ei fod yn falch fod Comisiynydd y Gymraeg ac Arolygiaeth Gofal Cymru wedi canmol yr Awdurdod am fodloni'r holl ofynion mewn perthynas â'r Gymraeg.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod yr Adroddiad Blynyddol yn dilyn strwythur sy'n cyd-fynd â gofynion Comisiynydd y Gymraeg, ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, mae'n rhaid adrodd ar y penawdau gofynnol. Dywedodd bod sefyllfa Ynys Môn wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad er mwyn tynnu sylw at gyflawniadau ehangach o fewn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Wrth ystyried yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol ymhlith y Pwyllgor:-

- Cyfeiriwyd at yr effaith ar brosesau recriwtio ar gyfer swyddi sy'n anodd eu llenwi a'r gofyniad, mewn rhaid gwasanaethau, i recriwtio pobl sydd angen Hyfforddiant a chymorth ychwanegol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, ac i ba raddau mae canolbwyntio ar y Gymraeg yn cyfyngu'r gallu i ddenu unigolion at swyddi sy'n gofyn am set penodol o sgiliau? Codwyd cwestiynau pellach ynghylch y ffaith fod 178 o aelodau staff gyda sgiliau iaith Gymraeg rhwng 0 – 1, gyda dim ond 27 wedi derbyn hyfforddiant. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth ei bod yn hanfodol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff er mwyn cefnogi eu sgiliau ieithyddol. Dywedodd bod y Gymraeg yn cael ei

hystyried yn sgil hanfodol gyda lefelau iaith yn amrywio yn dibynnu ar ofynion y swydd. Os bydd sgiliau ieithyddol swydd yn newid, bydd angen cynnal trafodaeth gyda'r Panel Recriwtio. Dywedodd bod rhai swyddi yn gofyn am sgiliau ieithyddol lefel is, a bydd y lefel honno yn parhau yn rhan o'r swydd. Cydnabyddir bod gofyniad i fuddosddi ymhellach i wella sgiliau ieithyddol staff. Mae recriwtio ar gyfer rhai swyddi arbenigol yn heriol am nifer o resymau, gan gynnwys gofynion ieithyddol. Dywedodd y Prif Weithredwr bod grymuster y Polisi Iaith Gymraeg a'r sgiliau ieithyddol disgwylidig yn ffordd o fesur cynnydd mewn sgiliau iaith staff a diwylliant Cymraeg yr Awdurdod. Dywedodd, pan fydd unigolyn mewn tîm yn cael effaith ar wasanaethau rheng flaen oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg, mae disgwyliad o fewn y contract cyflogaeth i'r unigolyn hwnnw gwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r Gymraeg.

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch pa wybodaeth ychwanegol all ychwanegu gwerth i'r Adroddiad Blynyddol? Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod trafodaethau mewnol wedi bod yn mynd rhagddynt mewn perthynas â sut ellir gwella'r Adroddiad Blynyddol yn y dyfodol, yn enwedig o ran defnyddio data yn ymwneud â defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y Cyngor, a dewis iaith cwsmeriaid. Dywedodd y byddai astudiaethau achos yn defnyddiol er mwyn gwella'r Adroddiad Blynyddol ac i olrhain datblygiadau a chynnydd staff sy'n cwblhau hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg.
- Gwelwyd dirywiad mewn cyrsiau hyfforddi mewnol ar yr iaith Gymraeg yn 2023/24 i 30% o 55% yn 2022/23. Gofynnwyd a fyddai'n fuddiol cynnig sesiynau hyfforddiant ychwanegol a'r angen i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol. Gofynnwyd a yw staff yn teimlo'n anhyderus i siarad Cymraeg, a phenderfynwyd y dylid darparu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn rhannu mwy am hanes a diwylliant Cymru. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth efallai y bydd mwy o gyrsiau hyfforddiant dwyieithog yn cael eu darparu, a bod angen edrych ar ddata mewn perthynas â nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyfer y sesiynau hyfforddi hyn. Nododd y byddai'n gwneud ymholiadau mewn perthynas ag argaeledd sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes cyrsiau ar gael i barhau i wella sgiliau ysgrifennu ac iaith. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth eu bod hi'n bwysig cynnig amrywiaeth o hyfforddiant ar lefelau gwahanol i staff, o sgiliau sylfaenol i gyrsiau gloywi iaith. Mae gwaith wedi mynd rhagddo gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n cynnig cyrsiau hyfforddiant am ddim, ac mae cyrsiau ar gael fel bo pobl yn parhau i wella eu sgiliau ysgrifennu ac iaith Gymraeg. Dywedodd, yn ystod y broses Drafod Flynyddol gyda staff, gellir trafod lefelau iaith Gymraeg a gellir cynnig hyfforddiant i staff er mwyn defnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol yn y gweithle.
- Nodwyd bod cynnydd wedi bod yn y defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion yng Nghaergybi, ond bod diffyg cyrsiau Cymraeg ar gyfer oedolion yn yr ardal. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod yr Awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner drwy Fforwm Iaith Ynys Môn sy'n trefnu cyrsiau Cymraeg mewn cymunedau.
- Gofynnwyd a oedd canfyddiadau'r ymchwil arloesol i'r maes recriwtio, i helpu sefydliadau i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg drwy gael gwared ar unrhyw rwystrau wrth ymgeisio, wedi'u cyhoeddi. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y bydd y canfyddiadau yn cynorthwyo proses recriwtio'r Awdurdod ac yn helpu Rheolwyr i bennu lefelau iaith ar gyfer swyddi penodol o fewn y Cyngor.

- Cyfeiriwyd at yr asesiad ar yr effaith ar yr iaith Gymraeg pan mae ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno, yn enwedig datblygiadau sylweddol mewn cymunedau a'r effaith all ei gael yn y tymor hir. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Rheolwr Polisi a'r Iaith Gymraeg wrth ystyried ceisiadau cynllunio yn ystod y broses ymgynghori. Dywedodd bod Asesiad ar yr Iaith Gymraeg yn cael ei ddarparu gan y datblygwr dan reoliadau cynllunio. Nododd y gellir ystyried y broses hon dan y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Gwnaed sylwadau bod angen cefnogaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg i roi pwysau, ar lefel genedlaethol, ar Lywodraeth Cymru ynghylch yr angen i newid y ddeddfwriaeth lle gall datblygwyr ddarparu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd cydweithio yn mynd rhagddo rhwng Swyddogion ar lefel strategol wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd, fodd bynnag, mae'n rhaid gwerthuso ceisiadau cynllunio drwy ddefnyddio data, ac mae'n rhaid ystyried yr iaith yn llawn o fewn y polisiau cynllunio cenedlaethol sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg bod llythyr ganddo ef a'r Aelod Portffolio Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd wedi'i anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru er mwyn pennu a oes canllawiau mwy cynhwysfawr ar gael mewn perthynas ag asesiadau risg ar iaith, gan fod nifer o siaradwyr Gymraeg ar yr Ynys.
- Nodwyd bod rhai aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yn methu â chyfrannu mewn cyfarfodydd yn Gymraeg gan nad yw cyfleusterau cyfieithu ar gael. Gofynnwyd a oes cymorth cyfieithu ar gael ar gyfer cyfarfodydd y Cynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y bydd gwaith yn mynd rhagddo i adnabod Pencampwyr Iaith Gymraeg yn eu cymunedau, ac i sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn deall y gofynion ac arferion presennol. Nododd bod bwriad i ystyried darpariaeth yr iaith Gymraeg yn Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref. Mae'r Rheolwr Polisi a'r Gymraeg wedi bod mewn Cyswllt â sefydliadau sy'n cynnig cyfleusterau cyfieithu i gefnogi Cynghorau Tref a Chymuned.

PEDNERFYNWYD:-

- **Derbyn Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2023/24;**
- **Nodi ei gynnwys a bod y cwestiynau sgrïwtini yn cael eu hanfon ymlaen at yr Aelod Portffolio fel rhan o'r broses o'i gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth ddirprwyedig, ac yna i'w gyhoeddi.**

CAMAU:

- **Bod sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael eu cynnal i hyrwyddo hanes a diwylliant Cymru;**
- **Bod y broses ymgynghori ar yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn cael ei hadolygu yn ystod y broses ceisiadau cynllunio.**

5 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG: 2022-2032 – ADRODDIAD CYNNYDD (2023/2024)

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dyweddod yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg mai diben yr adroddiad yw darparu diweddariad blynyddol ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Dyweddod y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod ysgolion wedi derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth Dysgu, canolfannau addysg, y Siarter Iaith a GwE yn ystod 2023/24 i sicrhau darpariaeth o safon sy'n adlewyrchu categorïau ysgolion ac anghenion disgyblion mewn ysgolion ar yr Ynys. Nododd bod rhaid cyflwyno'r adroddiad cynnydd ar y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru er mwyn adrodd ar y cynnydd i fodloni blaenoriaethau'r Cyngor a mynd i'r afael ag amcanion y Cynllun. Mae'r adroddiad yn nodi sefydlogrwydd allbynnau 1,2,3, 5 a 6 gyda dirywiad yn allbwn 4 (disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac allbwn 7 (nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg). Mae'r categorïau iaith wedi'u trafod gyda'r ysgolion Categori 1 – Cyfrwng Saesneg, Categori 2 – Dwyieithog a Chategori 3 – Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfnod trawsnewid ar gyfer gweithio tuag at Gyfrwng Cymraeg (T3). Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae pob ysgol gynradd, oni bai am un, yn Gategori 3 ac mae 4 ysgol uwchradd o fewn Categori 3, gydag un ysgol uwchradd yn T3. Aeth ymlaen i grybwyll 'Cynllun y Llan', sy'n arbennig ar gyfer y Canolfannau Iaith Gymraeg a'r 96 o ddisgyblion cynradd sy'n mynychu'r canolfannau hyn, a'r 150 disgybl sy'n derbyn cymorth ieithyddol ôl-ofal. Bydd un aelod o'r ganolfan yn gweithio ar safle Ysgol Uwchradd Caerdybi, fel elfen strategol o'r cynllun trawsnewid i gefnogi'r ysgol i symud o Gategori T3 i Gategori 3.

Cafodd y pwyntiau canlynol eu trafod ymhlith y Pwyllgor:-

- Gofynnwyd sut y gellid sicrhau rhieni y bydd eu plant yn derbyn addysg yn Gymraeg ar ôl symud o ysgol gynradd Categori 3 i Ysgol Uwchradd Caerdybi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd cynllun yn cael ei baratoi yn Ysgol Uwchradd Caerdybi sy'n cynnwys creu ffrwd Categori 3 ym mlwyddyn 7 o fis Medi 2024. Erbyn 2029, bydd gan bob blwyddyn ffrwd Categori 3 yn yr ysgol. Penodir un dosbarth blwyddyn 7 i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg o fis Medi 2024, gan gynnal hynny o flwyddyn 8 i 11. Mae staff eisoes wedi cwblhau cyrsiau Cymraeg ac maent yn frwdfrydig y bydd disgyblion o ysgolion cynradd Caerdybi yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Caerdybi. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch a fydd y ddarpariaeth ar gael i rieni gysylltu â'r ysgolion mewn perthynas â phroblemau eraill a all godi sy'n ymwneud ag iaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod Swyddog Siarter Iaith wedi cael ei benodi, fydd yn canolbwyntio ar sut i wella'r Gymraeg yn yr ysgol a thu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau mae gwasanaeth y Canolfannau Iaith yn ymateb yn llawn i anghenion trochi ledled Ynys Môn? Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod un Canolfan Iaith cynradd ac uwchradd sy'n ymateb i anghenion disgyblion sy'n symud i'r ardal. Gwneir ceisiadau am gyllid grant er mwyn gwella'r capasiti yn y Canolfannau Iaith, a phenodir athro o fewn y ddarpariaeth trochi uwchradd. Dywedodd ei bod yn amlwg fod angen am y Canolfannau Iaith gan fod rhestr aros llawn disgyblion sydd eisiau mynychu'r canolfannau hyn. Bob tymor, gwelir 32 o ddisgyblion o ysgolion cynradd a 30 disgybl o ysgolion uwchradd yn mynychu'r canolfannau

hyn. Mae llwyddiant y canolfannau yn amlwg iawn, gan fod awdurdodau eraill wedi mabwysiadu'r un ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae heriau ariannol yn parhau o ran darparu gwasanaeth y Canolfannau Iaith. Gwnaed sylwadau pellach fod disgyblion yn gorfod disgwyl am y ddarpariaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod athrawon mewn ysgolion eisoes yn meddu ar y sgiliau iaith i addysgu'n ddwyieithog, ond yn sgil y cynnydd mewn galw am Ganolfannau Addysg, mae'n anffodus bod disgyblion yn gorfod disgwyl i fynychu'r Canolfannau Iaith.

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch yr heriau a ragwelir o ran symud Ysgol Uwchradd Caerdybi o Gategori T3 i Gategori 3. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr ysgol wedi ymrwymo i barhau â'r broses drawsnewid er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o flwyddyn 7 ymlaen. Mae parhau i fonitro ac ymgynghori â rhieni yn hanfodol o ran ymateb i unrhyw bryderon a all godi.
- Nodwyd bod yr Ysgol Eglwys yng Nghaerdybi yng Nghategori 2, a gofynnwyd a oes modd symud yr ysgol i Gategori 3. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl ifanc fod yr ysgol Eglwys wedi'i rhoi yng Nghategori 3 yn sgil gwaith caled yr ysgol. Yr ysgol arall o fewn yr Awdurdod sydd yng Nghategori 2 ar hyn o bryd yw'r Ysgol Sefydledig, ac mae ymrwymiad o fewn yr ysgol i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu haddysgu ac i benodi athro i ganolbwyntio ar ddarpariaeth yn y Gymraeg, sy'n rhan o'u cynllun datblygu er mwyn gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.
- Gofynnwyd gwestiynau ynghylch i ba raddau mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn debygol o gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ac a yw ar y trywydd iawn? Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod heriau o fewn y Cynllun Strategol i fynd i'r afael â'r targedau disgwylidig. Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o 1 miliwn o siaradwyr erbyn 2050, sy'n her o fewn y sector Addysg gan fod lefel uchel o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn symud i'r Ynys. Mae cofnodion y Cyfrifiad hefyd wedi dangos bod nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ar aelwydydd wedi disgyn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gref o fewn ysgolion yr Ynys yn dangos bod yr iaith Gymraeg yn rhan hollbwysig o addysg plant. Dywedodd y Prif Weithredwr fod cofnodion y Cyfrifiad yn dangos bod 70% o'r boblogaeth yn meddu ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg o gymharu a 25% mewn rhannau eraill o Gymru. Dywedodd fod y targed o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn heriol, ac mae sefydliadau partner angen bod yn ymwybodol fod polisïau a deddfwriaeth, ynghyd â chyllid, yn bwysig er mwyn cyfateb â'r targedau hyn.
- Nodwyd y ffaith bod plant yn dueddol o droi i siarad Saesneg gyda'i gilydd yn yr ysgol yn dilyn cyfnod chwe wythnos o wyliau haf. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y ddarpariaeth sydd ar gael i rieni ddysgu Cymraeg, er mwyn cefnogi eu plant i siarad Cymraeg gartref. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cyrsiau ar gael drwy Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor a darpariaethau eraill, i ddysgu Cymraeg ac fe hysbysir hyn mewn ysgolion, gyda rhai ohonynt yn hwyluso'r ddarpariaeth i ddysgu Cymraeg yn yr ysgolion.
- Nodwyd bod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dod i Ynys Môn yn 2026. Gofynnwyd a ellir ymgorffori'r gwaith o hyrwyddo'r Urdd yn y Cynllun Strategol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd yn gyfle i dynnu sylw at ddatblygiad y Gymraeg ar yr Ynys pan fydd yn Eisteddfod yn cael ei chynnal yn 2026, a gellir cynnwys hyn yn y Cynllun Strategol. Mae gweithio

mewn partneriaeth â sefydliadau sydd ynghlwm â phlant a phobl ifanc yn hanfodol o ran hyrwyddo'r iaith. Nododd y bydd yn gyfle i deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg fynychu'r Eisteddfod.

PEDNERFYNWYD nodi'r diweddariad mewn perthynas â data'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2022-2023 a'r dull arfaethedig ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon.

CAM: Fel y nodwyd uchod.

6 ENWEBIAD GAN Y PWYLLGOR – PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Derek Owen i wasanaethau ar y Panel Sgriwtini Cyllid.

7 BLAEN RHAGLEN WAITH 2024/2025

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini oedd yn amlinellu Blaen Rhaglen Waith mynegol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2024/2025 i'w ystyried.

PENDERFYNWYD:-

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y blaen rhaglen waith ar gyfer 2024/2025;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithio'r blaen rhaglen waith.**

**CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, Euryrn Morris,
Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a
Sonia Williams

Aelod Portffolio

Y Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Corfforaethol a
Phrofiad y Cwsmer (ar gyfer eitem 5)

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Rheolwr Sgriwtini,
Swyddog Sgriwtini (EA),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd John I Jones

Mrs Wenda Owen – Yr Eglwys yng Nghymru;
Mrs Gillian Thompson – Rhiant Lywodraethwr – Ysgolion
Cynradd;
Mr John Tierney – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig

Aelod Portffolio

Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden,
Twristiaeth a Morwrol;

Pennaeth Democratiaeth;

Ms Dawn Docx – Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub
Gogledd Cymru (ar gyfer eitem 3).

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Rheolwr Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac
Ynys Môn (ST) (ar gyfer eitem 5 yn unig).

Mr Stewart Forshaw, Mr Anthony Jones a Mr Eilian Roberts –
Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru (ar gyfer eitem 3
yn unig).

Mr Jason Killens a Ms Estelle Hitchon – Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (ar gyfer eitem 4 yn unig)

Aelodau Portffolio

Y Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuencid a Gwasanaethau Tai;

Y Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;

Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff;

Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid;

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Jeff Evans ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Eyrn Morris ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn – 2023/2024, gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd.

Datganodd y Cynghorydd Dylan Rees ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan ei fod yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Rees, er ei fod yn datgan diddordeb personol, roedd yn credu y byddai'n briodol iddo adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

3 GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gan fod y Cadeirydd wedi datgan diddordeb a gadael y cyfarfod, camodd yr Is-gadeirydd i'r Gadair ar gyfer yr eitem hon yn unig.

Etholwyd y Cynghorydd Margaret M Roberts i wasanaethu fel Is-gadeirydd ar gyfer yr eitem hon yn unig.

Croesawodd yr Is-gadeirydd yn y Gadair Mr Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Mr Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid a Mr Eilian Roberts, Rheolwr Ardal ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r cyfarfod.

Cafwyd cyflwyniad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân ar broffil Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gorsafoedd Tân Ynys Môn, Cyllid Awdurdod Lleol, Gwaith Partneriaeth, Diogelwch Tân i Fusnesau ac Ymgysylltu Cymunedol.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Roedd yr Is-gadeirydd eisiau cael gwybod pa heriau allai wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub pe byddai argyfwng yn digwydd ar yr Ynys a'r ddwy bont dros y Fenai ar gau. Dywedodd y Rheolwr Ardal bod y pontydd wedi gorfod cau oherwydd gwyntoedd cryfion yn y gorffennol ac mae pryder y gallai hyn ddigwydd yn fwy aml wrth i batrymau tywydd newid yn sgil newid yn yr hinsawdd. Nododd fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn credu ei bod yn bwysig pwysu am drydedd bont dros y Fenai. Roedd y Prif Weithredwr yn gwerthfawrogi cefnogaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub i ymgyrch yr awdurdod am drydedd bont gan fod pryder am wytnwch y pontydd. Mae poblogaeth yr ynys yn codi'n aruthrol yn ystod y cyfnod gwyliau prysur a Phorthladd Caergybi yw'r porthladd prysuraf yng Nghymru. Nododd y byddai unrhyw ddata ac enghreifftiau y gallai'r Gwasanaeth Tân ac Achub eu rhannu yn cefnogi ac yn cryfhau'r ymgyrch am drydedd bont.
- Nodwyd bod y rhan fwyaf o Orsafoedd Tân ar Ynys Môn wedi'u rhestru fel rhai 'ar alw' yn unig ac mae cyfraddau argaeledd yn ystod y dydd yn isel. Gofynnwyd i ba raddau mae hyn yn creu risg i drigolion a pha gynlluniau sydd ar waith i wella argaeledd ledled yr Ynys yn y dyfodol. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod argaeledd Swyddogion Tân yn ystod y dydd yn gallu bod yn heriol, ond mae'n cymryd 13 munud ar gyfartaledd i ymateb i dân ar Ynys Môn. Mae Gorsaf Dân Caergybi ar gael bob dydd ac mae'n bosib cael cefnogaeth gan ail injan dân o'r tir mawr. Nododd bod y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi Adolygu'r Ddarpariaeth Frys yn ddiweddar ac un o'r opsiynau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Tân oedd gwneud Gorsaf Dân Llangefni yn orsaf ddydd yn unig, ond gwrthodwyd y cynnig. Er hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ystyried y 3 lleoliad mwyaf addas ar gyfer gwasanaeth amser cyflawn ar hyd a lled Gogledd Cymru. Holwyd hefyd am anawsterau recriwtio gweithwyr mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod recriwtio mewn ardaloedd gwledig yn gallu bod yn heriol, yn enwedig o ran argaeledd yn ystod y dydd. Roedd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi ystyried darparu gorsafoedd tân amser cyflawn mewn ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chynnig cyfleoedd gwaith o fewn y cymunedau hynny, ac yn enwedig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.
- Gofynnwyd a oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymweld ag ysgolion a cholegau i hyrwyddo llwybrau gyrfaedd o fewn y Gwasanaeth Tân. Gofynnwyd hefyd a yw'r Gwasanaeth Tân yn cysylltu â busnesau lleol i drafod rhyddhau staff sy'n ystyried gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân mewn rôl rhan amser. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn recriwtio'n barhaus ac mae wedi ymrwymo hefyd i ddenu merched i'r gwasanaeth. Dywedodd hefyd y byddai'n her i fusnesau ryddhau staff yn ystod y dydd oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub gynllun Cadetiaid Tân llwyddiannus ym Mhorthaethwy ar gyfer pobl ifanc rhwng 12 ac 16 oed ac maent yn gallu ennill Dyfarniad Lefel 1 i 3 yn y pwnc 'Gwasanaeth Tân ac Achub'. Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân at y Prosiect Ffenics lle mae pobl ifanc yn cael eu rhyddhau o'r ysgol am wythnos i

gymryd rhan mewn gweithgareddau gwerth chweil fydd yn eu cynorthwyo i ennill parch ac integreiddio yn eu cymunedau, yn ogystal â'u cyflwyno i'r rolau a'r cyfleoedd sy'n bodoli o fewn y Gwasanaeth Tân.

- Gofynnwyd cwestiynau am ddilyniant gyrfa o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y byddai'r Gwasanaeth Tân yn hysbysebu cyfleoedd gyrfa yn ystod yr wythnosau nesaf. Nododd fod gyrfa o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub yn un gwerth chweil ac mae'r Gwasanaeth yn annog gweithwyr i ddatblygu eu gyrfaedd. Gofynnwyd cwestiynau am nifer uchel y swyddi diffoddwyr tân wrth gefn a rolau gwirfoddoli a geir o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân mai swyddi wrth gefn sydd i'w cael yn bennaf yn y gorsafoedd tân ar Ynys Môn ond mae Diffoddwyr Tân llawn amser wedi'u lleoli yng Ngorsaf Dân Caergybi.
- Gofynnwyd sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n delio gyda galwadau tân diangen a pha ganran o alwadau diangen y gellir codi tal amdanynt? Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân bod y galwadau diangen yn bennaf yn gysylltiedig â safleoedd busnes ac ni ellir codi tâl amdanynt.
- Yn ystod y cyflwyniad cyfeiriwyd at gynllunio a chynnal ymarferion ar y cyd â phartneriaid ar safle Wylfa. Gofynnwyd ym mha ardaloedd eraill y bwriedir trefnu ymarferion. Dywedodd y Rheolwr Ardal bod ymarferion lleol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae ymarferion ar raddfa fawr yn cael eu cynnal ar safle'r Llu Awyr Brenhinol yn y Fali ac ar safle Wylfa, ar y cyd â nifer o sefydliadau eraill. Mae Porthladd Caergybi wedi'i gynnwys yn y rhaglen ymarferion lleol hefyd, ac mae ymarferion rheolaidd yn cael eu cynnal fel rhan o'r rhaglen honno. Mae hyfforddiant yn cael ei gynnal hefyd ar gyfer y posibilrwydd o lifogydd difrifol ac mae ymarferion yn cael eu cynnal ar y Fenai. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub yn gosod dyletswydd ar y Gwasanaeth Tân i gasglu a chynnal gwybodaeth am unrhyw risgiau hysbys; mae Swyddogion Tân yn adolygu risgiau ar safleoedd yn rheolaidd, h.y. Porthladd Caergybi. Dywedodd y Prif Weithredwr fod cwestiynau wedi'u gofyn mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn am y risg o dân yng Nghoedwig Niwbwrch a gallu'r gwasanaethau tân i gyrraedd y goedwig oherwydd y problemau traffig sy'n bodoli, yn enwedig yn ystod y tymor gwyliau pan fydd pobl yn ymweld â'r ardal. Dywedodd y Swyddog Ardal fod cynlluniau tactegol ar waith i sicrhau fod y Gwasanaeth Tân yn gallu ymateb i ddiwyddiadau all godi ac mae cerbydau arbenigol yn cael eu hanfon i ddiwyddiadau o'r fath. Ychwanegodd bod y Gwasanaeth yn ymweld yn aml â Choedwig Niwbwrch, ar y cyd ag asiantaethau eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cyfeiriwyd at bryderon na fyddai'r Gwasanaeth Tân yn gallu cyrraedd ardaloedd gwledig ar yr Ynys o fewn y cyfnod ymateb penodol o 20 munud a'r posibilrwydd y gallai pobl farw oherwydd hynny. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y byddai injans tân o'r tir mawr hefyd yn cynorthwyo criwiau ar yr Ynys mewn ardaloedd sy'n anoddach eu cyrraedd o fewn y cyfnod ymateb penodol o 20 munud. Nododd mai pwrpas yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys oedd adolygu a gwella gweithdrefnau presennol y Gwasanaeth Tân a newid systemau dyletswydd yn y gorsafoedd tân amser cyflawn er mwyn rhyddhau ymladdwyr tân llawn amser i weithio mewn ardaloedd gwledig. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod 18 injan dân

ar gael bob dydd o fewn y rhanbarth. Gellir symud injans tân i leoliadau mwy strategol os cyfyd yr angen.

PENDERFYNWYD diolch i'r cynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am fynychu'r cyfarfod.

4 YMDDIRIEDOLAETH BRIFYSGOL GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jason Killens, Prif Weithredwr Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, a Ms Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, i'r cyfarfod.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Gofynnwyd pa mor hir mae cleifion o Fôn yn gorfod disgwyl am ambiwlans yn dilyn galwad frys a pha gynlluniau sydd ar waith i wella amseroedd ymateb. Dywedodd Prif Weithredwr Gwasanaethau Ambiwllans Cymru fod hyn yn dibynnu ar gategori'r alwad frys ac o ble mae'r ambiwlans yn ymateb i'r alwad. Nododd na fydd yr ambiwlans yn cychwyn o'r Orsaf Ambiwllans fel arfer, ond yn hytrach o Adran Frys ar ôl i'r criw orffen yr alwad frys ar gyfer y claf blaenorol. Yr amser ymateb ar gyfer cleifion y bernir bod angen cymorth brys arnynt (categori coch), h.y., trawiad ar y galon, strôc a chleifion sy'n anymwybodol, yw 8 munud mewn 65% o alwadau. Nid yw'r targed yn cael ei gyrraedd ar hyn o bryd, yn genedlaethol nac yn lleol, a'r amser ymateb yw 10 munud, er bod yr amser yn amrywio yn ystod y dydd a'r nos. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y Gwasanaethau Ambiwllans wedi buddsoddi'n sylweddol yn ystod y 4 blynedd diwethaf, ar ôl derbyn arian gan Lywodraeth Cymru, er mwyn recriwtio dros 400 o glinigwyr rheng flaen i'r gwasanaeth. Er hynny, mae galwadau brys sy'n cael eu categorio fel rhai lle mae bywyd yn y fantol wedi dyblu, a bu oedi sylweddol wrth drosglwyddo cleifion i Adrannau Brys ar hyd a lled ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Er bod y Gwasanaethau Ambiwllans wedi buddsoddi i wella'r gwasanaeth a gwella effeithlonrwydd, gyda pharafeddygon a chlinigwyr wedi'u lleoli mewn cymunedau i drin cleifion nad oes angen mynd â nhw i'r ysbyty mewn ambiwlans, mae pwysau o hyd ar y Gwasanaeth Ambiwllans. Dywedodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu fod staff yn cael eu datblygu ar yr Ynys, gyda Thechnegwyr Meddygol Brys yn hyfforddi i fod yn Barafeddygon. Mae 2 Barafeddyg wedi ymuno â'r tîm ar Ynys Môn a bydd hynny'n caniatáu i gleifion gael eu trin gan staff sydd wedi cymhwyso'n llawn ac efallai na fydd angen eu cludo i'r ysbyty. Gofynnwyd cwestiynau pellach am gleifion sy'n gorfod aros oriau i ambiwlans gyrraedd. Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno bod rhai cleifion, nad yw eu bywyd mewn perygl, yn gorfod aros am amser hir i'r ambiwlans gyrraedd a'u bod yn gorfod aros yn yr ambiwlans tu allan i adrannau brys am gryn amser. Er hynny, mae'n adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni o ran gofal brys a gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.
- Gofynnwyd beth yw'r trefniadau ar gyfer blaenoriaethu galwadau pan fydd galw sylweddol am y Gwasanaeth Ambiwllans. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr holl alwadau 999 yn cael eu categorio yn ôl faint o amser a gymer y gwasanaeth brys i ymateb. Mae oedi hir wrth drosglwyddo cleifion i adrannau brys ac mae ambiwlansys yn ciwio tu allan i'r adrannau brys, ac mae hynny'n

creu rhagor o oedi wrth ymateb i alwadau brys eraill. Llif cleifion trwy'r ysbytai sydd i gyfrif am yr oedi wrth drosglwyddo cleifion, ac mae cleifion sy'n ddigon iach i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn llenwi'r gwelyau. Problemau yn y system ofal cymdeithasol i oedolion sydd i gyfrif am hyn, oherwydd pwysau o ran darparu pecynnau gofal er mwyn caniatáu i gleifion ddychwelyd adref.

- Gofynnwyd beth yw'r amseroedd aros cyfartalog mewn ambiwlans tu allan i'r Adran Frys yn Ysbyty Gwynedd a sut mae'r amseroedd aros yn cymharu ag adrannau Brys eraill yn yr ardal. Gofynnwyd hefyd i ba raddau allai cydweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol liniaru neu leihau amseroedd aros. Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r amser targed ar gyfer trosglwyddo cleifion i Adrannau Brys yw 15 munud, a'r disgwyl yw y byddai criw'r ambiwlans yn treulio 15 munud arall yn glanhau a pharatoi ar gyfer eu claf nesaf. Fodd bynnag, yng Nghymru mae'n cymryd 2 awr ar gyfartaledd i drosglwyddo cleifion a pharatoi ar gyfer y claf nesaf, ond mae Gogledd Cymru'n ardal heriol o safbwynt trosglwyddo cleifion i'r ysbyty. Dywedodd hefyd fod ar gyfartaledd 1,500 o gleifion y dydd ar hyd a lled Cymru ddylai fod yn derbyn gofal yn ddiogel yn eu cymunedau lleol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu fod y Bwrdd Iechyd a'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu galw cynyddol am ofal cymdeithasol ac mae angen i gleifion fod yn ddiogel yn eu cartrefi. Cyfeiriodd y Pwyllgor at ddarparwyr amgen sy'n darparu cludiant i gleifion, h.y. Môn Medics a Medic 1. Gofynnwyd a fyddai'r darparwyr hyn yn gallu cynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwllans a lleihau amseroedd aros. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Gwasanaeth Ambiwllans yn darparu gwasanaeth trosglwyddo cleifion ac mae'n gofalu am gleifion nad oes angen gofal brys arnynt, yn ogystal ag ymateb i alwadau brys. Mae'r Gwasanaeth Ambiwllans yn darparu'r system ofal brys GIG 111. Defnyddir gwirfoddolwyr yn helaeth ar hyd a lled Gogledd a Gorllewin Cymru i gludo cleifion i apwyntiadau a drefnwyd (nad ydynt yn alwadau brys). Mae gwirfoddolwyr sydd wedi cael eu hyfforddi ac wedi derbyn cyfarpar gan y Gwasanaeth Ambiwllans yn gweithio fel Ymatebwyr Cyntaf ac Ymatebwyr Lles mewn cymunedau lleol ac maent ar gael i ddelio gydag argyfyngau lle mae bywyd yn y fantol cyn i'r ambiwlans gyrraedd. Cyfeiriodd at ddarparwyr tu allan i'r GIG sydd â chapasiti cyfyngedig. Nid yw'r Gwasanaethau Ambiwllans yn defnyddio darparwyr tu allan i'r GIG ar gyfer galwadau brys fel rheol, oherwydd ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir o gymharu â'r safon ofynnol. Nododd na fyddai cael ambiwlansys ychwanegol i gludo cleifion i adrannau brys yn lliniaru'r problemau sy'n bodoli o ran amseroedd aros.
- Gofynnwyd pa ganran o staff y Gwasanaeth Ambiwllans sy'n gweithio gyda chleifion ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg. Dywedodd y Prif Weithredwr bod staff ledled y rhanbarth yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu Cymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu fod y Gwasanaethau Ambiwllans wedi dod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn ddiweddar a'r blaenoriaethau fydd yn cael sylw yw sut i ddatblygu staff yn lleol ac annog pobl ifanc i ymuno â'r Gwasanaeth Ambiwllans mewn gyrfaoedd ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Roedd rhaid i gynrychiolwyr Gwasanaethau Ambiwllans Cymru fynychu cyfarfod arall ond cytunont i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau eraill yr oedd y Pwyllgor yn dymuno iddynt eu hateb.

PENDERFYNWYD diolch i'r cynrychiolwyr o Wasanaethau Ambiwylans Cymru am fynychu'r cyfarfod.

GWEITHRED : Bod gweddill cwestiynau'r Pwyllgor yn cael eu hanfon at Brif Weithredwr Gwasanaethau Ambiwylans Cymru er mwyn derbyn ymateb ysgrifenedig ganddo.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN 2023/24

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer yn cyflwyno'r adroddiad gan fod y Cynghorydd Llinos Medi wedi ymddiswyddo fel Arweinydd y Cyngor ar ôl iddi gael ei hethol yn Aelod Seneddol ar gyfer Ynys Môn. Llongyfarchodd y Pwyllgor y Cynghorydd Llinos Medi ar gael ei hethol a thalwyd teyrnged iddi am ei gwaith er budd trigolion Môn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer ei fod yn dymuno diolch i'r Cynghorydd Llinos Medi am ei gwaith ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd gan y Bwrdd er mwyn gwella llesiant cymunedau yn ystod 2023/2024. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd y Ddeddf hefyd yn sefydlu'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Cyfeiriodd at amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, sef lliniaru effaith tlodi; gwella cyflawniad plant a phobl ifanc a chefnogi cymunedau i symud tuag at sero net. Ychwanegodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer fod y blaenoriaethau'n cyd-fynd â Chynllun Llesiant ac amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â'r Cynllun Pwysau Iach a'r Iaith Gymraeg. Cyfeiriodd at esiamplau o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Nodwyd bod yr Adroddiad Blynyddol yn trafod blwyddyn gyntaf y Cynllun Llesiant : 2023-2028. Holwyd pa werth ychwanegol mae gwaith partneriaeth wedi'i greu. Dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn bod holl aelodau'r Bwrdd wedi dangos parodrwydd i weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella'r blaenoriaethau a llesiant trigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r sefydliadau partner yn gallu rhannu profiadau ac enghreifftiau o waith sydd wedi arwain at welliant sylweddol dros y blynyddoedd. Rhannodd esiamplau o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd o ran mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu sefydliadau wrth recriwtio a chadw staff sy'n siarad Gymraeg ac mae 17 o sefydliadau wedi rhannu eu harfer dda o ran recriwtio staff. Gofynnwyd tybed ai'r strwythur cyflog yw'r rheswm bod pobl ifanc yn gadael yr Ynys. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen nad graddfeydd cyflog swyddi yw'r prif reswm sy'n atal pobl rhag ymgeisio am swyddi yn yr 17 sefydliad y bu'r Bwrdd yn trafod â nhw. Mae

nifer o'r problemau recriwtio'n rhai ymarferol, h.y., efallai bod y swydd ddisgrifiad yn arwain pobl i feddwl nad yw eu sgiliau iaith yn ddigon da. Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen hefyd at y Cynllun Teithio Llesol y bu'r Bwrdd yn ei drafod. Cyngor Sir Ynys Môn sydd wedi arwain y gwaith hwn ac mae wedi rhannu arfer dda gyda sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r Bwrdd.

- Holwyd beth yw lle'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y strwythurau partneriaeth rhanbarthol cymhleth sy'n bodoli a sut mae gwneud y gorau o gydweithio er mwyn osgoi dyblygu nifer o'i ffrydiau gwaith. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn benderfynol o beidio â dyblygu ffrydiau gwaith sefydliadau partner. Fel enghraifft, dywedodd bod y Bwrdd wedi mabwysiadu'r dull system gyfan mewn perthynas â'r flaenoriaeth Pwysau Iach ac wedi'i ymgorffori yng ngwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn ychwanegu gwerth at y gwaith sy'n cael ei wneud ac osgoi dyblygu. Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen at y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Gymraeg a gwaith y Bwrdd gyda'r prosiect ARFOR a Chomisiynydd y Gymraeg, er mwyn cynorthwyo i greu mwy o gyfleoedd a gwella'r defnydd o'r Gymraeg. Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer bod sefydliadau partner wedi rhannu eu gwaith ar 'sero net' ac mae hyn yn cynorthwyo'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu profiadau ac enghreifftiau o arfer dda.
- Holwyd pa gyfleoedd, heriau a risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol? Rhannodd y Rheolwr Rhaglen enghreifftiau o waith y Bwrdd o ran cyd-lobïo ar faterion strategol, h.y., gwahoddwyd Mr Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, i gyfarfod nesaf y Bwrdd i drafod y posibilrwydd o drydydd croesiad dros y Fenai. Dywedodd bod y Rhwydwaith Teithio Gwledig yn broblem mewn cymunedau gwledig. Cyfeiriodd hefyd at yr heriau sy'n wynebu'r Bwrdd o ran denu adnoddau ariannol rhanbarthol ac mae angen i'r Bwrdd fod ar flaen y gad o ran denu cyllid rhanbarthol. Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen at y perygl o ddyblygu, fel y nodwyd yn flaenorol.
- Gofynnwyd i ba raddau mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar allu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni yn erbyn y targedau allweddol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith sylweddol ar waith y Bwrdd. Mae blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant wedi'u llunio i gydnabod effaith yr argyfwng costau byw ar gymunedau lleol.

PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/2024 a nodi cynnydd yn erbyn Cynllun Llesiant 2023-2028 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.

GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.

6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2024/2025

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn amlinellu Blaen Raglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2024/2025.

PENDERFYNWYD:-

- Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaen raglen waith ar gyfer 2024/2025;
- Nodi cynnydd hyd yma wrth weithredu'r flaen raglen waith.

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD**

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES
IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR AR GYFER EITEM 3 YN UNIG**

This page is intentionally left blank

CWESTIYNAU YCHWANEGOL GAN AELODAU'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO → GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU

ADDITIONAL QUESTIONS FROM MEMBERS OF THE PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE → WELSH AMBULANCE SERVICES

Tudalen 19

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
1	<p>Gweler y llythyr ynghlwm os gwelwch yn dda gan Gadair y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio at Vaughan Gething, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ym mis Mawrth 2020, mae'r cynnwys yn hunan esboniadwy. Mae'n ymddangos i ni beidio â derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru ond roedd yn union cyn y Pandemig Covid. Deallaf fod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n parhau i weithredu cynllun tebyg i'r peilot CAT o gofio llwyddiant amlwg y cynllun peilot hwn o ran lleddfu'r pwysau ar y galw ar wasanaethau ambiwlans, beth yw eich barn am weithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru i ail gyflwyno'r cynllun CAT?</p> <p><i>Please find attached a letter sent from the Chair of the Partnership and Regeneration Scrutiny Committee to Vaughan Gething, the then Minister for Health and Social Services in March 2020, the contents of which are self-explanatory. It doesn't appear that we received a response from Welsh Government but it was immediately prior to the outbreak of the Covid epidemic. I understand that Mid and West Wales Fire & Rescue Service are still operating a</i></p>	<p>Cyng / Cllr Dylan Rees (Cadair y Pwyllgor / Committee Chair)</p>	<p>O ran y prosiect CAT, roedd yn gydweithrediad peilot yn 2016/17 rhwng WAST, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru. Edrychodd ar ffyrdd y gallai'r gwasanaethau gydweithio'n well. Roedd y tîm CAT yn beilot ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych ond ehangodd am gyfnod byr i gwmpasu Sir y Fflint. Roedd yn edrych nid yn unig ar gwympiadau (dim anafiadau) ond tra bod y tîm mewn eiddo, byddai'n cwblhau gwiriad diogelwch tân a gwiriad atal trosedd. Nid oedd CAT yn cynnwys Gogledd Gwynedd ac Ynys Môn. Er na pharhaodd y prosiect, mae nifer o fentrau ar waith i gefnogi pobl nad ydynt wedi'u hanafu, gan gynnwys ein gwasanaeth ymateb i gwympiadau a menter ymatebwyr lles cymunedol newydd. Mae'n annhebygol y bydd y fformat CAT blaenorol yn cael ei atgyfodi.</p> <p><i>In respect of the CAT project, it was a pilot collaboration in 2016/17 between WAST, NWFRS and NWP. It looked at better ways of the services</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
	<p><i>scheme similar to the CAT pilot. Bearing in mind the obvious success of this pilot in alleviating pressures on the demand for ambulance services, what are your views on working with the North Wales Fire and Rescue Service and Welsh Government to reintroduce the CAT scheme?</i></p>		<p><i>working together. The CAT team was a pilot for Conwy and Denbighshire but did expand briefly to cover Flintshire. It not only looked at falls (non-injury) but whilst the team were at a property, it would complete a fire safety check and crime prevention check. CAT did not cover North Gwynedd and Anglesey. While the project did not continue, a number of initiatives are in place to support non injured fallers, including our falls response service and new community welfare responders initiative. It is unlikely the previous CAT format will be resurrected.</i></p>
2	<p>Beth ydych barn ar gefnogi busnesau tebyg i Môn Medics a Medic 1 wrth iddynt gynnig gwasanaeth cludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys ee i gludo cleifion i mewn neu allan o'r ysbyty?</p> <p><i>What is your view about supporting businesses like Môn Medics and Medic 1 as they offer a transport service for non-emergency patients eg transport patients to and from hospital?</i></p>	<p>Cyng / Cllr Non Dafydd</p>	<p>Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cwblhawyd gwaith yn llwyddiannus i drosglwyddo holl ddarpariaeth NEPTS Cymru i WAST. Mae WAST yn darparu'r gwasanaethau hyn gan ddefnyddio'r hyn rydym yn cyfeirio ato fel y model lluosogrwydd sy'n cynnwys ein gweithwyr sector cyhoeddus ein hunain, darparwyr preifat trwy ystod o gontractau ad hoc, tymor byr a thymor hwy, a gwirfoddolwyr. Rydym yn credu bod hyn yn cynnig darpariaeth sy'n ymateb i anghenion cleifion a byrddau iechyd, a gefnogir gan drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a chanlyniadau, ac sy'n</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>cynnig gwerth am arian. Mae ein dyll o gontractio yn cydymffurfio â gofynion contractio'r sector cyhoeddus, a gall darparwyr dendro am waith o fewn y paramedrau hyn. Pan fydd ein contractau tymor hwy ar fin dod i ben, maen nhw'n cael eu hadolygu a, phe bai'r angen am y ddarpariaeth yn dal i fodoli, cânt eu cynnig am dendr i ddarparwyr masnachol cofrestredig, megis Môn Medics. Mae Môn Medics yn rhan o'r fframwaith 365 ar gyfer ein tendrau. Maent yn ddarparwr newydd, wedi cofrestru dim ond yr hydref diwethaf, ond maen nhw wedi casglu rhywfaint o waith sydd ar gael yn yr ardaloedd lle maen nhw'n gweithredu. Mae gan bob darparwr fanylion ein tîm a gallant gysylltu â ni os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnynt ynghylch sut y caiff gwaith ei dendro ac ati.</p> <p><i>Within the last few years, work has been successfully completed to transfer all NEPTS provision for Wales into WAST. WAST delivers these services using what we refer to as the plurality model which includes our own public sector employees, private providers through a range of ad-hoc, short term and longer term</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p><i>contracts, and volunteers. We believe this offers a provision that is responsive to the needs of patients and health boards, is supported with robust quality and outcome oversight arrangements, and offers value for money. Our approach to contracting is undertaken in accordance with public sector contracting requirements, and providers are able to tender for work within these parameters. When our longer term contracts are due to expire they are reviewed and, should the need for the provision still exist, offered out for tender to registered commercial providers, such as Môn Medics. Môn Medics is on the 365 framework that we submit work out to tender on. They are a new provider only being registered last autumn, but have picked up some work which has been made available in the areas in which they operate. All providers have details of our team and are able to contact us should they require additional information about how work is tendered etc.</i></p>
3	<p>Bu i ni glywed am fachgen yn cael ei drywanu yng Nghaergybi oddeutu blwyddyn ôl. Bu l'w gyfaill ei yrru yn syth i Fangor yn hytrach nag aros am Ambiwylans. Mae'n debyg fod y weithred yma wedi achub bywyd y bachgen.</p>	<p>Cyng / Cllr Non Dafydd</p>	<p>Mae'n anodd gallu gwneud sylwadau ar un achos, ac mae adegau pan allai fod yn fwy priodol i glaf gael ei yrru'n syth i adran achosion brys i gael triniaeth yn lle aros am</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
	<p>Beth ydych barn am unigolion yn gyrru cleifion i'r Ysbyty yn hytrach nag aros am ambiwlans?</p> <p><i>We heard reports of a boy being stabbed in Holyhead about a year ago. His friend drove him straight to Bangor rather than waiting for an Ambulance. This action probably saved his life. What is your view of individuals driving patients to the hospital rather than waiting for an ambulance?</i></p>		<p>ambiwllans i ymateb. Fodd bynnag, byddem bob amser yn annog teuluoedd, gwylwyr neu ffrindiau i ffonio 999 a gofyn am ambiwlans yn y lle cyntaf gan ein bod yn gallu brysbennu ac anfon yr adnodd priodol yn effeithiol. Mae adegau pan nad yr adran achosion brys agosaf o reidrwydd yw'r un fwyaf priodol gan fod gwasanaethau arbenigol yn cael eu darparu mewn mannau eraill (er enghraifft, mae trawladau ar y galon yn derbyn ymyriad arbenigol yn Ysbyty Glan Clwyd). Efallai y byddwn hefyd yn galw ar asiantaethau partner i gynorthwyo, gan gynnwys yr ambiwlans awyr (EMRTS) a all gludo, er enghraifft, cleifion ag anafiadau trawmatig sylweddol, i'r canolfannau trawma mawr yn naill ai Stoke neu Lerpwl. Mewn cyfnodau o waethygu sylweddol, oherwydd lefelau uchel o waith yn y system 999, gall diffyg argaeledd ein hambiwllansys a'n ceir ymateb olygu ein bod hefyd yn darparu cyngor y dylai claf wneud ei ffordd ei hun (os yw'n gallu) i gyflymu derbyn gofal.</p> <p><i>It is difficult to be able to comment on a single case, and there are occasions when it might be more appropriate for a patient to be driven</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p><i>straight to an emergency department for treatment instead of waiting for an ambulance to respond. However, we would always encourage families, bystanders or friends to call 999 and ask for an ambulance in the first instance as we are able to effectively triage and send the appropriate resource. There are occasions whereby the nearest emergency department is not necessarily the most appropriate as specialist services are delivered elsewhere (for example, heart attacks receive specialist intervention at Ysbyty Glan Clwyd). We might also call upon partner agencies to assist, including the air ambulance (EMRTS) who can transport for example, patients with significant traumatic injuries, to the major trauma centres in either Stoke or Liverpool. In periods of significant escalation, through high volumes of work in the 999 system, the lack of availability of our ambulances and response cars, may mean we also provide advice that a patient should make their own way (if they are able) to expedite care.</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
4	<p>Deallaf eich bod wedi ystyried symud eich safle ateb ffôn yn bellach i ffwrdd o'r Gogledd Orllewin. Mae'n debyg y byddai hyn yn lleihau y nifer o siaradwyr Cymraeg a fyddai'n ymateb i'r galwadau ffôn. Tybed pa ystyriaethau rydych chi'n eu roi i bwysigrwydd cyfathrebu yn y Gymraeg yn y Gwasanaeth Ambiwylans ac yn benodol wrth ymateb i alwadau ffôn?</p> <p><i>I understand that you have considered relocating your telephone answering site further away from the North West. This would probably reduce the number of Welsh speakers who would respond to phone calls. What considerations do you give to the importance of communicating in Welsh in the Ambulance Service and specifically when answering telephone calls?</i></p>	<p>Cyng / Cllr Non Dafydd</p>	<p>Mewn ymateb i'ch cwestiwn ynghylch y cynnig i symud Canolfan Cyswllt Clinigol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) o Lanfairfechan i Lanelwy a'r effaith bosibl ar y Gymraeg. Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r sefyllfa bresennol. Cawn ein llywodraethu gan ofynion Safonau'r Gymraeg mewn llawer o feysydd o'n gwaith, yr ydym yn eu cefnogi ac sy'n ymrwymiad yr ydym yn ei gymryd o ddifrif. Fodd bynnag, am resymau diogelwch clinigol, mae ymdrin â galwadau 999 wedi'i eithrio o'r safonau hynny. Nid yw dyletswyddau statudol o dan Safonau'r Gymraeg yn gosod unrhyw ofyniad cyfreithiol ar yr Ymddiriedolaeth i ateb galwadau 999 yn Gymraeg.</p> <p>O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, Paragraff 35: Nid yw safonau 8 i 10 ac 13 i 16 yn berthnasol i alwadau a wneir i rif ffôn 999.</p> <p>Wedi dweud hyn, rydym yn cydnabod ein bod yn gwasanaethu poblogaeth amrywiol, y bydd llawer ohonynt, yn enwedig mewn rhai ardaloedd o Gymru, yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Ar y sail honno, mae gennym gronfa o</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>siaradwyr Cymraeg ar draws ein tair canolfan cyswllt clinigol sydd ar gael i siarad â galwyr yn eu dewis iaith.</p> <p>Rydym yn gwerthfawrogi ein staff yn fawr, a dyna un rheswm pam yr ydym am ddarparu amgylchedd gwaith llawer gwell iddynt, gan gydnabod bod canolfan Llanfairfechan y tu hwnt i gyflwr economaidd ac nad yw bellach yn rhoi digon o le inni ddiwallu ein hanghenion. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod symudiad arfaethedig yn cyflwyno heriau logistaidd i rai cydweithwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw yn rhannau mwyaf gorllewinol Gogledd Cymru.</p> <p>Ar y sail honno, rydym wedi ymgymryd â dau beth. Yn gyntaf, rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn edrych ar effaith y newid arfaethedig ar siaradwyr Cymraeg ledled Cymru, yn enwedig gan ein bod yn darparu system genedlaethol (Cymru gyfan) ar gyfer ymdrin â galwadau ac, felly, y gellid ymdrin â galwyr sy'n dymuno sgwrsio yn Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg yn ein canolfannau cyswllt clinigol yng Nghaerfyrddin neu Gwmbrân, yn ogystal â rhai yn Llanfairfechan. Yn amlwg, nid</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>ein nod yw darparu gwasanaeth llai i alwyr Cymraeg, er gwaethaf y materion a amlinellwyd yn flaenorol ynghylch yr eithriad dilys o alwadau 999 o Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Yn yr un modd, rydym yn cwblhau cynlluniau i ddarparu ar gyfer nifer o'r staff hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan symud i weithio o'n canolfan yn Ty'r Wyddfa ym Mangor. Bydd hyn wrth gwrs hefyd yn golygu y bydd cyfran sylweddol o'r staff hynny'n siaradwyr Cymraeg, felly nid ydym yn rhagweld gostyngiad sylweddol yn ein darpariaeth Gymraeg. Yn ogystal, rydym yn parhau i hysbysebu ein swyddi gwag ar gyfer Canolfan Gogledd Cymru gyda'r Gymraeg yn ddymunol i ymgeiswyr a byddwn yn darparu cyrsiau a chefnogaeth i'r cydweithwyr hynny sydd eisiau dysgu Cymraeg.</p> <p>Wrth symud i safle Tŷ Elwy, rydym hefyd yn cydnabod bod Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd yn gweithredu yn ardal Llanelwy a bod ganddynt gyfrifoldeb i recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer eu gwasanaethau a byddwn felly'n parhau i wneud ymdrech sylweddol i</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>sicrhau bod gennym staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yng Ngogledd Cymru ochr yn ochr â'n dwy Ganolfan arall.</p> <p>Bydd yr holl staff yr effeithir arnynt yn cael eu cefnogi drwy broses newid sefydliadol GIG Cymru, sy'n darparu amddiffyniadau i staff ac yn galluogi cydweithwyr i gael sgysiau unigol am eu hamgylchiadau penodol eu hunain.</p> <p>I grynhoi, byddwn yn parhau i weithio drwy asesiadau effaith gyda'n staff a'n Hundebau Llafur i sicrhau ein bod yn deall yn llawn yr effaith ar ddarpariaeth iaith, yn ogystal â chefnogi cydweithwyr gydag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt drwy broses newid sefydliadol GIG Cymru.</p> <p><i>In response to your question around the proposed move of the Welsh Ambulance Services NHS Trust (WAST) Clinical Contact Centre from Llanfairfechan to St Asaph and the potential impact on the Welsh language, the following provides a useful overview of the current position.</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p><i>We are governed by the requirements of the Welsh Language Standards in many areas of our work, which we support and which is a commitment that we take very seriously. However, for clinical safety reasons, handling 999 calls is exempt from those standards. Statutory duties under the Welsh Language Standards impose no legal requirement on the Trust to answer 999 calls in Welsh.</i></p> <p><i>Under the Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018, Paragraph 35: Standards 8 to 10 and 13 to 16 do not apply to calls made to the 999 telephone number.</i></p> <p><i>This said, we recognise that we serve a diverse population, many of whom, particularly in some areas of Wales, will be first-language Welsh speakers. On that basis, we have a pool of Welsh speakers across our three clinical contact centres available to speak to callers in their chosen language.</i></p> <p><i>We greatly value our staff, which is one reason why we want to provide them with a much better working environment, recognising that the</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p><i>Llanfairfechan centre is beyond economic condition and no longer provides us with enough space to meet our needs. We also appreciate that a proposed move presents logistical challenges for some colleagues, particularly those living in the westernmost parts of North Wales.</i></p> <p><i>On that basis, we have undertaken two things. Firstly, we have undertaken an equality impact assessment examining the impact of the proposed change on Welsh speakers across Wales, particularly as we provide a national (all-Wales) system for handling calls and, therefore, callers wishing to converse in Welsh could be handled by Welsh speakers at our clinical contact centres in Carmarthen or Cwmbran, as well as those in Llanfairfechan. Clearly, our aim is not to provide a reduced service for Welsh callers, despite the issues previously outlined regarding the valid 999 call exemption from the Welsh Language Standards.</i></p> <p><i>Similarly, we are finalising plans to accommodate a number of those staff most affected by the move to work from our Snowdon House base in Bangor. This will of course also</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p><i>mean that a significant proportion of those staff will be Welsh language speakers, so we do not envisage a significant reduction in our Welsh language provision. In addition, we continue to advertise our vacancies for the North Wales Centre with Welsh language as desirable for applicants and will provide courses and support for those colleagues who want to learn Welsh.</i></p> <p><i>In moving to the Ty Elwy site, we also recognise that North Wales Police and North Wales Fire and Rescue also operate in the St Asaph area and have a responsibility to recruit Welsh language speakers for their services and we will therefore continue to place significant effort to ensure we have Welsh speaking staff available in North Wales alongside our other two Centres.</i></p> <p><i>All affected staff will be supported through NHS Wales' organisational change process, which provides protections for staff and enables colleagues to have individual conversations about their own specific circumstances.</i></p> <p><i>In summary, we will continue to work through impact assessments with our staff and Trade</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<i>Unions to ensure we fully understand the impact on language provision, as well as supporting colleagues with any concerns they may have through NHS Wales' organisational change process.</i>
5	<p>Bu i chi grybwyll y "first responders". Mi wn fod y pwysau ar y gwasanaeth gwirfoddol yma yn drwm mewn ardaloedd tebyg i bellafion Pen Llŷn. Beth ydy cyfartaledd oed y gwirfoddolwyr yn gweithredu fel "first responders" ym Môn a Gwynedd? Faint o oriau ar gyfartaledd mae nhw'n gwirfoddoli? Ac os yn oedrannus, sut ydych yn cynllunio i recriwtio gwirfoddolwyr newydd?</p> <p><i>You referred to the "first responders". I am aware that the pressure on this voluntary service is significant in areas like rural Llŷn Peninsula. What is the average age of the volunteers acting as "first responders" on Anglesey and Gwynedd? How many hours do they volunteer on average? And if elderly, how do you plan to recruit new volunteers?</i></p>	Cyng / Cllr Non Dafydd	<p>Mae gennym nifer sylweddol o wirfoddolwyr ledled Cymru sy'n ymgymryd â rolau amrywiol i gefnogi Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae'r rolau hyn yn cynnwys ein gyrwyr ceir gwirfoddol sy'n cludo cleifion yn bennaf i apwyntiadau ysbyty, ymatebwyr lles cymunedol sy'n cynnal arsylwadau sylfaenol ar gleifion yn y gymuned ac ymatebwyr cyntaf yn y gymuned sy'n ymateb i alwadau 999 gan gynnwys argyfyngau sy'n bygwth bywyd.</p> <p>Ar draws Ynys Môn a Gwynedd yn benodol, ar hyn o bryd mae gennym 41 o Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned (CFRs). Nid ydym yn cadw data ar oedran gwirfoddolwyr, er y gall Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned wirfoddoli os ydynt dros 18 oed. Nid oes gennym derfyn oedran uchaf ar gyfer gwirfoddoli gan y byddai hyn yn cael ei asesu ar allu'r gwirfoddolwr i gyflawni'r rôl. Mae ein hyfforddiant yn cael ei</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>gynllunio'n flynyddol gydag agwedd deg a chytbwys tuag at gyrsiau ledled Cymru er mwyn cynnal argaeledd gwirfoddolwyr. Mae gennym ddau gwrs arall ar y gweill ar draws Ynys Môn a Gwynedd eleni.</p> <p>Mae gennym hefyd bartneriaeth gydag RAF y Fali ar Ynys Môn sy'n gweithredu timau Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned ac Ymatebwyr Lles Cymunedol.</p> <p>Mae ein holl wirfoddolwyr wedi ymrwymo i Gytundeb Gwirfoddolwyr sy'n amlinellu isafswm o 16 awr y mis o ymrwymiad gwirfoddol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn cynnal eu sgiliau clinigol ac yn lliniaru'r risg y bydd sgiliau'n pylu. Ar gyfer ein 41 CFR ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd, mae hyn yn cyfateb i isafswm o 656 awr y mis ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd.</p> <p>Ar gyfer ein gyrwyr ceir gwirfoddol, rydym yn tueddu i weld demograffeg gwahanol ac er nad ydym yn casglu data ar oedran yn rheolaidd, oedran cyfartalog ein gyrwyr VCS yw tua 67 oed. Ar hyn o bryd mae gennym 11 o yrwyr ceir</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>gwirfoddol ar draws Gwynedd ac Ynys Môn, ac ym mis Gorffennaf 2024 cwblhawyd 13,596 milltir ar gyfartaledd o 1236 fesul gyrrwr. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n recriwtio yn y maes hwn i wella'r darpariaethau trafndiaeth yn y rhanbarth.</p> <p><i>We have a significant number of volunteers across Wales who undertake various roles in support of the Welsh Ambulance Service. These roles include our volunteer car drivers who mainly transport patients to hospital appointments, community welfare responders who undertake basic observations on patients in the community and community first responders who respond to 999 calls including life threatening emergencies.</i></p> <p><i>Across Anglesey and Gwynedd specifically, we currently have 41 active Community First Responders (CFRs). We do not hold data on volunteer ages, although Community First Responders can volunteer from the age of 18 years old. We do not have an upper age limit for volunteering as this would be assessed on capability of the volunteer to fulfil the role. Our</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p><i>training is planned annually with a fair, balanced approach to courses across Wales to maintain volunteer availability. We have two more remaining courses planned across Anglesey and Gwynedd this year.</i></p> <p><i>We also have a partnership with RAF Valley on Anglesey that operate a Community First Responder and Community Welfare Responders teams.</i></p> <p><i>All our volunteers have signed up to a Volunteer Agreement that outlines a minimum of 16 hours a month of volunteer commitment. This is to ensure our volunteers maintain their clinical skills and mitigates risk of skill fade. For our 41 Anglesey and Gwynedd CFRs, this equates to a minimum of 656 hours per month in Anglesey and Gwynedd.</i></p> <p><i>For our volunteer car drivers, we do tend to see a different demographic and whilst we do not routinely collect data on age, the average age of our VCS drivers is approximately 67 years. We currently have 11 volunteer car drivers across Gwynedd and Anglesey, and In July 2024 they</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<i>completed 13,596 miles an average of 1236 per driver. We are currently actively recruiting in this area to improve the transport provisions in the region.</i>
6	<p>Pa ganran o staff y Gwasanaethau Ambiwylans yn gweithio gyda chleifion ar Ynys Môn sy'n gallu siarad Cymraeg?</p> <p><i>What percentage of Ambulance Services' staff working with patients on Anglesey can speak Welsh?</i></p>	<p>Cyng / Cllr Gwilym Owen Jones (Is-gadair y Pwyllgor / Committee Vice-chair)</p>	<p>Nid ydym yn cadw'r data hwn. Mae cofrestru cymhwysedd iaith yn faes dewisol ar ein systemau ac felly ni allem roi ffigur yn ddibynadwy. Fodd bynnag, mae'n resymol dweud y byddai cyfran sylweddol o'n staff yng Ngogledd Orllewin Cymru yn siaradwyr Cymraeg, i lefelau amrywiol o ruglder.</p> <p><i>We do not hold this data. Registering of language competency is an optional field on our systems and therefore we could not reliably give a figure. However, it is fair to say that a significant proportion of our staff in North West Wales would be Welsh speakers, to varying levels of fluency.</i></p>
7	<p>Faint o gleifion sy'n mynd i'r Adran Frys sydd naill ai'n methu gweld meddyg neu ddim yn ffonio meddyg sydd wedi hynny'n effeithio ar yr amser disgwyl?</p> <p><i>How many patients that go to A & E are a result of not being able to see a doctor or have not phoned a doctor which in turn has impacted on waiting times?</i></p>	<p>Cyng / Cllr Sonia Williams</p>	<p>Nid ydym mewn sefyllfa i fesur hyn fel gwasanaeth ambiwlans. Efallai ei fod yn gwestiwn gwell i gydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p><i>We are not in a position to quantify this as an ambulance service. It may be a question better</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<i>posed to colleagues at Betsi Cadwaladr University Health Board.</i>
8	<p>Pa ganran o alwadau am ambiwlans fyddai'n fwy priodol i Feddyg Teulu ymateb iddynt?</p> <p><i>What percentage of calls for an ambulance would have been more appropriate for a GP to respond to?</i></p>	Cyng / Cllr Sonia Williams	<p>Rydym yn cydnabod bod y pwysau a brofir gan gydweithwyr mewn gofal sylfaenol weithiau yn arwain at gleifion yn cysylltu â 999. Mae gennym nifer o ffyrdd y gallwn eu defnyddio i helpu, gan nad oes angen triniaeth ysbyty ar bob claf. Mae ein timau Gofal Integredig yn cynnwys clinigwyr profiadol fel parafeddygon a nyrsys. Maen nhw'n edrych ar y digwyddiadau wrth iddyn nhw ddod i mewn ac yn dewis cleifion i'w ffonio'n ôl. Yn dilyn asesiad clinigol strwythuredig, un o'r canlyniadau yw atgyfeirio'r claf yn uniongyrchol i ofal sylfaenol am driniaeth barhaus neu asesiad pellach. Yn WAST, ers 1 Ionawr 2024 mae ein desg gymorth clinigol wedi atgyfeirio 2074 o gleifion i ofal sylfaenol (o fewn oriau a thu allan i oriau), yn ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Yn ogystal, mae gennym nifer cynyddol o uwch ymarferwyr parafeddygol, y mae llawer ohonynt yn cylchdroi i ofal sylfaenol fel rhan o'u dyletswyddau i gynorthwyo gyda gwaith integredig gyda gofal sylfaenol. Ar gyfer y cleifion mae'n nhw'n eu gweld, nid oes angen</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>gofal ysbyty ar hyd at 70% ohonyn nhw. O safbwynt WAST, nid oes unrhyw alwadau amhriodol oherwydd drwy'r systemau 999 ac 111 rydym yn ddrws i ofal mewn argyfwng, gofal brys a gofal heb ei drefnu. Mater i ni yw gweithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid ar draws GIG Cymru i sicrhau bod llwybrau sy'n canolbwyntio ar y claf ar agor i'n clinigwyr eu defnyddio.</p> <p><i>We acknowledge that sometimes the pressure experienced by colleagues in primary care leads to patients contacting 999. We have a number of avenues we can use to help, as not every patient requires hospital treatment. Our Integrated Care teams include experienced clinicians such as paramedics and nurses. They look at the incidents as they come in and select patients to call back. Following a structured clinical assessment, one of the outcomes is to refer the patient directly to primary care for ongoing treatment or further assessment. In WAST since January 1st 2024 our clinical support desk has referred 2074 patients to primary care (both in hours and out of hours), within the Betsi Cadwaladr Health Board area. In addition, we</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p><i>have a growing number of advanced paramedic practitioners, many of whom rotate into primary care as part of their duties to assist with integrated working with primary care. For the patients they see, up to 70% do not require hospital care. From a WAST perspective, there is no inappropriate call as through both the 999 and 111 systems we are a door to emergency, urgent and unscheduled care. It is up to us to work in close collaboration with partners across NHS Wales to ensure patient centred pathways are open for our clinicians to access.</i></p>
9	<p>Beth ydy canran yr unigolion sy'n cael eu cludo i'r ysbyty sydd wedyn yn cael mynediad i ward?</p> <p><i>What percentage of individuals conveyed to hospital are then admitted onto a ward?</i></p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Head of Adults' Services</p>	<p>Nid ydym yn cadw'r data hwn. Unwaith y caiff gofal ei drosglwyddo i'r ysbyty sy'n derbyn, nid oes gennym unrhyw ffordd ystyrlon o olrhain cynnydd y claf hwnnw drwy'r system ysbytai.</p> <p><i>This is data that we do not hold. Once care is transferred to the receiving hospital, we have no meaningful way of tracking the progress of that patient through the hospital system.</i></p>


Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
10	<p>Pa ganran o unigolion sy'n cael eu gweld gan barafeddyg nad ydynt wedi hynny'n cael eu cludo i'r ysbyty?</p> <p><i>What percentage of individuals seen by a paramedic are not conveyed to hospital?</i></p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Head of Adults' Services</p>	<p>Ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill i fis Mawrth 2023/24, cafodd 6460 o alwadau 999 ymateb i leoliad, gyda chlinigydd WAST yn gweld y claf. 2097 o ddigwyddiadau a arweiniodd at beidio â chludo'r claf i'r ysbyty (32.4%). Dros yr un amser fodd bynnag, lle'r oedd y clinigwr a ymatebodd gyntaf yn Uwch Ymarferydd Parafeddygol (APP) yna'r gyfradd na chafodd eu cludo oedd 52.4%. O'r digwyddiadau hyn, lle mai APP oedd yr ymateb cyntaf, roedd 6% wedi'u categorio'n flaenoriaeth goch a 47.2% yn oren 1, sef y ddwy flaenoriaeth uchaf o ran categorio galwadau. Yn ogystal, yn ystod y cyfnod diwethaf hwn, cafodd 8.7% o'r holl alwadau 999 ar Ynys Môn eu cau trwy'r broses ymgynghori a chau, gan barafeddyg neu nyrs yn gweithio yn yr ystafell reoli mewn asesiad clinigol o bell. I roi cymhariaeth, rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, roedd y ffigwr hwn yn 1.5%. Ar hyn o bryd mae APPs yn cael eu hanfon i alwadau yn seiliedig ar set "cod" wedi'i diffinio ymlaen llaw yn seiliedig ar brif gŵyn y mae claf yn ei gwneud. Mae'r sefydliad yn symud tuag at system anfon dan arweiniad clinigol i sicrhau bod yr APPs a rolau uwch eraill fel Parafeddygon Gofal Lliniarol yn cael eu hanfon i</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>ddigwyddiadau lle maen nhw'n ychwanegu gwerth a bod cyfle i gyrraedd sefyllfa wahanol. Maen nhw yn aml yn cau achos clinigol y claf heb fod angen ei atgyfeirio i ran o'r system gofal iechyd ehangach. Gydag anfoniadau dan arweiniad clinigol, gellir anfon y clinigwyr hyn at gleifion y gellir eu rheoli o bosibl yn y gymuned, gan ddefnyddio eu set sgiliau uwch, a pheidio ag anfon yr adnodd hwn lle byddai cludiant i'r adran achosion brys yn glinigol briodol.</p> <p><i>For the year April to March 2023/24, 6460 999 calls received a response to scene and a WAST clinician seeing the patient. 2097 incidents resulting in the patient not being conveyed to hospital (32.4%). Over the same time however, where the first responding clinician was an Advanced Paramedic Practitioner (APP) then the non-conveyance rate was 52.4%. Of these incidents, where an APP was first response, 6% were categorised as red priority and 47.2% were an amber 1, these being the two highest priority of call categorisation. Additionally, in this last period, 8.7% of all 999 calls in Anglesey were closed via Consult and Close, by a Paramedic or Nurse working in the control room in a remote</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p><i>clinical assessment. By comparison, from April 2018 to March 2019, this figure was 1.5%. Currently APPs are dispatched to calls based on a predefined "code" set based on a chief complaint that a patient makes. The organisation is moving towards a clinically led dispatch system to ensure that both the APPs and other enhanced roles such as Palliative Care Paramedics are dispatched to incidents where they add value and there is opportunity to reach an alternative disposition. They often close the patient's clinical case without need to refer on to a part of the wider healthcare system. With a clinically led dispatch these clinicians can be sent to patients who can be potentially managed in the community, utilising their advanced and enhanced skillset, and not sending this resource where transport to the emergency department would be clinically appropriate.</i></p>
11	<p>I ba raddau gall y defnydd o dechnoleg i fonitro a goruchwyllo achosion unigol dynnu pwysau oddi ar y Gwasanaeth?</p> <p><i>To what degree can the use of technology to monitor and supervise individual cases alleviate pressure on the Service?</i></p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Head of Adults' Services</p>	<p>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn treialu'r defnydd o dechnoleg mewn cartrefi gofal yn ardal PBC, gan ddefnyddio technoleg LUSCII mewn cynllun peilot a gefnogir gan SBRI. Mae'r peilot yn cynnwys defnyddio ap Luscii ac offer Ysbyty-mewn-Blwch i dreialu'r defnydd o ddyfeisiau monitro o bell wrth ddarparu gofal.</p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<p>Nod y peilot yw pennu manteision monitro o bell o fewn lleoliad gofal cyn mynd i'r ysbyty ac asesu'r effaith ar ofal, gan gynnwys amseroedd aros a derbyniadau diangen.</p> <p>Bydd cael mynediad at yr arsylwadau hyn yn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau wrth dderbyn galwadau, gan alluogi timau clinigol yn ystafell reoli'r Ymddiriedolaeth i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth am y dull gofal cywir.</p> <p><i>The Trust has been trialling the use of technology in care homes within the BCU area, using LUSCII technology in a pilot supported by SBRI. The pilot involves use of Luscii's app and Hospital-in-a-Box equipment to trial the use of remote monitoring devices in the delivery of care. The aim of the pilot is to determine the benefits of remote monitoring within a pre-hospital care setting and assess the impact on care, including waiting times and unnecessary admissions.</i></p> <p><i>Having access to these observations will facilitate decision-making when receiving calls, enabling clinical teams in the Trust's control room to make</i></p>

Rhif Cwestiwn Question Number	Cwestiwn Question	Aelod Etholedig Elected Member	Response
			<i>evidence-based decisions about the correct care approach.</i>




CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

PARTNERIAETHAU STRATEGOL

Pwyllgor Craffu Adfywio
12 Medi 2024

STRATEGIC PARTNERSHIPS

Regeneration Scrutiny Committee
12th September 2024






MEDRWN MÔN

Un o 19 CGS a ariennir ledled Cymru i gefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol i gyflawni yn erbyn 4 piler allweddol:

- Llywodraethu da
- Gwirfoddoli
- Cyllid cynaliadwy
- Ymgysylltu a dylanwadu

One of 19 CVC's funded across Wales to support community groups and voluntary organisations to deliver against 4 key pillars:

- Good governance
- Volunteering
- Sustainable funding
- Engaging and influencing




STRWYTHUR A STAFF

- Sefydliad aelodaeth
- Elusen Gofrestredig a Chwmni Cyfyngedig drwy Warant
- Arweinir gan y Bwrdd Rheoli
- 3 aelod o staff ar Gyllideb Craidd
- 5 aelod o staff ar rolau a ariennir gan brosiectau
- 1 aelod o staff wedi'i ariannu drwy BIPBC

Tudalen 49

STRUCTURE & STAFF

- Membership organisation
- Registered Charity and Company Limited by Guarantee
- Led by Management Board
- 3 members of staff on Core Budget
- 5 member of staff on project funded roles
- 1 member of staff funded through BCUHB




2023-4

66%
Cyllido Cynaliadwy/
Sustainable Funding

23%
Llywodraethu Da/
Good Governance

5%
Ymgysylltu a dylanwadu/
Engaging & Influencing

4%
Gwirfoddoli/
Volunteering



£353,000
o gyllid wedi ei
gefnogi/of
funding
supported

£200,000
o arian
allweddol wedi'i
ddosbarthu/
of key funds
distributed

52
cynnal sesiynau
hyfforddi am
ddim/
free training
sessions held


GWERTH YCHWANEGOL/ ADDED VALUE

Yn y cyfnod 2023-24 dosbarthwyd £200,000 gennym mewn cronfeydd allweddol a oedd yn cynnwys:

- Grant Cymorth Ieuenctid
- Mannau Cynnes
- Gweithgareddau Hydrefol
- Cyllid Cychwynnol Cynllunio Lle
- GwirVol
- SPF Mannau Gwyrdd

In 2023-24 period we distributed £200,000 in key funds which included:

- Youth Support grant
- Warm Spaces
- Autumn Activities
- Seed funding for Place Shaping
- GwirVol
- SPF Green Spaces



